**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**14 RHAGFYR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Ted Palmer, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Paul Cunningham a Hilary McGuill

**HEFYD YN BRESENNOL**: Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Gillian Brockley - Eitem 6.2 (064397) ar y rhaglen

Roedd y Cynghorwyr Marion Bateman a Chrissy Gee yn bresennol fel arsylwyr

**YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Arweinydd Tîm Strategaeth Cynllunio, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu Tîm y De, Uwch Swyddogion Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

**32. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**33. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a'u hatodi i'r eitem ar y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5231&LLL=0

**34. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorydd Mike Peers eu cynnig a'r Cynghorydd Chris Bithell eu heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

**35. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr argymhellir bod eitem 6.1 yn cael ei gohirio er mwyn gallu cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio.

**36. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**37. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.20pm)

................................
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 14 RHAGFYR 2022**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000077/22 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais llawn - Cais llawn - Codi 21 annedd gyda mynedfa i ffordd y gellir ei mabwysiadu. (Ail-gyflwyniad o Gais a Gymeradwywyd yn flaenorol 055398) yn Ffordd Rhewl Fawr, Penyffordd, Treffynnon | | Gohiriwyd ar gais swyddogion er mwyn caniatáu i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol gael ei gynnal (oherwydd maint y datblygiad arfaethedig) |
| 064397 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais llawn - Ailddatblygu cyn safle Cartref Gofal i ddarparu llety byw â chymorth arbenigol newydd (Defnydd Dosbarth C3) a chartref gofal (Defnydd Dosbarth C2) i oedolion ag anableddau, ynghyd â ffordd fynediad newydd gysylltiedig, lle parcio, gwaith tirlunio a man amwynder yn Bennetts Lane, Penarlâg, Glannau Dyfrdwy. | Siaradodd Jill Irving (Preswylydd) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Michael Gilbert (Asiant) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Gillian Brockley, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthodwyd y cais yn groes i Argymhelliad Swyddog ar sail ei fod yn ddatblygiad amhriodol oherwydd màs a graddfa, a'i fod yn ormesol ac yn rhy fawr. Fe'i gwrthodwyd hefyd ar sail diogelwch priffyrdd. |

| **RHIF YR EITEM** | **CYNGOR TREF/ CYMUNED** | **SAFLE / CAIS** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000143/22 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn - Lleoliad parhaus o adeilad symudol i'w ddefnyddio fel cyfleusterau newid ategol yn Mill Lane, Bwcle. | Siaradodd Gill Jones (Preswylydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Pete Lloyd (Asiant) o blaid y cais. | Caniatâd Dros Dro hyd at 30 Mehefin 2025 gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i atodi amodau cynllunio priodol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. |
| LBC/ 000351/22 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Adeilad Rhestredig - Lleoliad parhaus o Adeilad Symudol i'w ddefnyddio fel cyfleusterau newid ategol yn Mill Lane, Bwcle. | Fel yr uchod. | Caniatâd Dros Dro hyd at 30 Mehefin 2025 gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i atodi amodau cynllunio priodol ac ymgynghori gyda Cadw o ran y caniatâd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| FUL/ 000498/22 | Cyngor Tref Yr Wyddgrug | Cais llawn - newid defnydd o wasanaethu a gwerthu rhannau cerbydau modur i siop frechdanau a becws Dosbarth A1 a Dosbarth A3 (caffi / bwyty / cludfwyd poeth) ynghyd â gwaith allanol i adnewyddu ac ymestyn yr uned bresennol, maes parcio wedi'i ail-lunio, seddi allanol, rhwystr acwstig a gwaith cysylltiedig yn Ffordd Caer, Yr Wyddgrug | Siaradodd Adrian Fox (Asiant) o blaid y cais. | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda’r amodau a nodir yn yr adroddiad |
| FUL/ 000392/22 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais LLAWN - newid dosbarth o C3 (annedd) i Ddosbarth C2 (cartref gofal) yn 43 Lower Aston Hall Lane, Penarlâg | Ar ran yr ymgeisydd, siaradodd Jen Slade (Ymgeisydd) o blaid y cais. | Cymeradwywyd yn unol ag Argymhelliad y Swyddog, gyda’r amodau a nodir yn yr adroddiad |